## CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Ionawr 9, 2024, yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Ywain Myfyr – Maer
Y Cynghorydd Bob Gunton – Dirprwy Faer
Y Cynghorwyr Peter Jones; Dyfrig Siencyn; Branwen Rhys Dafydd; John Raghoobar; Ray Peters; Peter Barnes; John Cadwaladr; Nia Evans.
Mr Rhys Williams – Clerc

**C64.2023/2024.1 SESIWN CYHOEDDUS**
Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**C65.2023/2024.2 YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Jo Checkley, Sion Edwards, Heilyn Williams, Y Cynghorydd Sirol Linda Morgan

**C66.2023/2024 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**
Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

| Enw | Eitem | Rheswm |
|---|---|---|
| Branwen Rhys Dafydd | Adroddiad ar gais yr Urdd am arian | Yn gweithio i'r Urdd |

**C67.2023/2024 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR RAGFYR 5, 2023.**
Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod, gydag amod bod rhai elfennau o adroddiad y Cynghorydd Sirol Dyfrig Siencyn yn cael ei addasu.

**C68.2023/2024 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1. **Les ar gyfer y Cae Pêl droed i'r Clwb Pêl droed - Y Cynghorydd Nia Evans yn Cadeirio**
   **Cyflwynwyd:** Diweddariad ar y les dan sylw.
   **Cadarnhawyd:** Y gwaith o addasu geirfa elfennau o'r les o'r fersiwn gwreiddiol ar y gweill. Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn barod i gynorthwyo.

2. **Gardd Bywyd Gwyllt Felin Uchaf**
   **Cyflwynwyd:** Yr angen am gopi o'r cytundeb newydd gyda'r gwirfoddolwyr newydd i gael eu rhannu gydag aelodau o'r Cyngor.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

3. **Llwybr Pen y Banc**
   **Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn nodi bod Cyngor Gwynedd am geisio datrys y broblem yma drwy ddilyn y trwydd o ddynodi y llwybr yma fel llwybr / ffordd gyhoeddus.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i ddiweddaru y cyn-gynghorydd Tecwyn Owen ar y mater yma.

4. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
   **Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

5. **Digwyddiad Diweddar Moto Camps – Ardal Pencefn**
   **Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Dyfrig Siencyn sef dim ymgynghori / trafodaeth bellach ar y funud gan nad oedd cwynion pellach wedi dod i'r amlwg.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Dileu'r eitem yma o faterion yn codi am y tro.

6. **Llwybr A470 rhwng Cwt Gwyn / Coed Ffridd Arw i Tanyfron**
   **Cyflwynwyd:** Dim Cynnydd ar y mater yma hyd yma.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

7. **Problemau Parcio rhwng banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
   **Cyflwynwyd:** Y cynnig i sefydlu 1 x llinell melyn dwbl yn yr ardal uchod i oresgyn y broblem yma ar waith.
   **Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

8. **Rhaglen Ymrwymiad Cymunedol**
   **Cyflwynwyd: Diweddariad ar sawl pwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

   **i) Trefnu ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos penodol i'r Cyngor:**
   **Cyflwynwyd:** Adborth gan y Clerc ei fod wedi danfon enghraifft dan sylw i'r Parc Cenedlaethol o safbwynt unrhyw anghenion cynllunio. Eglurwyd bydd angen dilyn y trywydd o gyflwyno cais am gyngor o flaen cais cynllunio.
   **Penderfynwyd:** Cytuno i'r broses yma.

   **ii) Arwyddion Gefeillio Newydd**
   **Cyflwynwyd:** Ail drafodaeth am ychwanegu 2 x arwydd gefeillio pellach ar sail y dyluniad diwygiedig sydd wedi ei sefydlu ar y 2 x arwydd newydd eisoes.
   **Penderfynwyd**: Dilyn y trywydd o gyflwyno cais am gyngor o flaen cais cynllunio. Y Cynghorydd Peter Barnes i rannu manylion manwl o'r 2 x leoliad dan sylw.

9. **Cynllun Parcio Preswyl y Sir**
   **Cyflwynwyd:** Trafodaeth parthed strwythur cyffredinol y cynllun yma gan Gyngor Gwynedd ond yn benodol cais trigolion preswylwyr ardal Cae Tanws Bach i'r ardal gael ei gynnwys o fewn y Cynllun Parcio preswyl presennol.
   **Penderfynwyd:** Cefnogi'r ymgynghoriad ar gyfer sefydlu ardal Cae Tanws Bach oddi fewn y cynllun presennol.

**C69.2023/2024 SEFYLLFA ARIANNOL / ADBORTH O ARCHWILIAD ARCHWILIO CYMRU AR GYFRIFON Y CYNGOR AR GYFER 2022-2023**

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc a chadarnhau'r taliadau canlynol:

| **Dyddiad** | **Rhif Siec** | **Enw** | **Disgrifiad** | **Swm £** |
|---|---|---|---|---|
| 02.12.2023 | 104142 | Rhys Williams | Ad-daliad cynnydd cyflog net Ebrill - Tachwedd 2023 a chyflog net mis Rhagfyr 2023 | 758.40 |
| 18.12.2023 | 104143 | Wendy Owen | Gwaith Cyfieithu Hydref i Rhagfyr 202 | 323.57 |
| 02.01.2023 | 104144 | Rhys Williams | Cyflog Ionawr 2024 | 478.40 |

**Cytunwyd hefyd i gynnal cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid y Cyngor ar Nos Fawrth, 30.01.2024 am 7.00 o'r gloch yn y Llyfrgell Rydd ar gyfer:**
**Adolygiad Cyllideb a gwariant hyd at mis 9 2023 - 2024**
**Ceisiadau am gyfraniadau ariannol.**
**Praesept 2024 – 2025 y Cyngor**

**ADBORTH O ARCHWILIAD ARCHWILIO CYMRU AR GYFRIFON Y CYNGOR AR GYFER 2022-2023 - diweddariad**

**Cyflwynwyd:** Cyfeiriwyd at y sylw oddi wrth Archwilio Cymru, megis pryder ynglŷn â'r nifer o gyfrifon banc sydd gan y Cyngor (megis 4).
Adroddwyd gan y Clerc bod hyn ar waith ar y funud gan Gyfrif Banc y Cyngor (HSBC)

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

**C70.2023/2024 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

1. <u>**Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref**</u>

i) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr** (Y Maer) – er bod y Nadolig yn gyfnod prysur teuluol, rhaid cyfaddef y bu'n gyfnod tawel o safbwynt fy nyletswyddau fel Maer. Rwy'n gobeithio i chi fwynhau'r ŵyl. Roedd ein tref yn edrych yn wirioneddol hyfryd ac yn dwyn edmygedd o lawer man. Roedd yn braf gallu ymhyfrydu yn hyn gan gofio nad oedd wastad fel hyn dros gyfnod y Nadolig. Mae'n diolch yn fawr i'r Cynghorydd Bob Gunton am ei arweiniad ar hyn. Mae ein dyled fel cynghorwyr ac fel tref yn fawr iddo.

ii) **Y Cynghorydd Bob Gunton** - gwaith cynllunio gyda goleuadau Nadolig 2024 Goleuadau am fod ymlaen ar Dachwedd 29, 2024. Gwaith tynnu goleuadau 2023 i lawr mewn llaw.

**Diolchwyd a llongyfarchwyd yr aelod am ei holl waith caled ar y fenter yma.**

iii) **Y Cynghorydd Nia Evans** – gwaith 'Lle yn y Dref' yn mynd o nerth i nerth. Pecynnau bwyd yn cael eu dosbarthu allan yn llwyddiannus a'r niferoedd yn cynyddu. Cynydd hefyd yn y nifer o fudiadau / asiantaethau allanol sydd yn ymweld a sesiynnau 'Lle yn y Dref'. **Llongyfarchwyd Nia eto** ar ei gwaith gyda'r fenter yma.
**Penderfynwyd:** I'r Cynghorwyr Nia Evans a Dyfrig Siencyn drafod y mater yma ymhellach.

iv) **Y Cynghorydd Ray Peters –** Dim i'w adrodd.

v) **Y Cynghorydd Peter Barnes** - cais i'r Cyngor arwain ar brosiect i gynhyrchu pamffledi i hybu busnesau lleol yn y dref.
**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais mewn egwyddor. Y Clerc i ymgynghori gydag Un llais Cymru ar hyn.
**Cynllun Cenedlaethol 'Smart Towns:**
**Penderfynwyd**: Sefydlu is-grŵp o'r Cyngor i arwain ar hyn, megis: Y Cynghorydd Bob Gunton (Dirprwy Faer), a'r Cynghorwyr Peter Barnes, Ray Peters, Branwen Rhys Dafydd.

vi) **Y Cynghorydd John Raghoobar** - cais i aelodau'r Cyngor i wirio Parc y dref am y 6 wythnos nesaf / ac i gasglu sbwriel gan y bydd i ffwrdd tramor.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

vii) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** – cyfarfod Cyngor Coleg Meirion / Dwyfor yn ddiweddar. Gwaith 'Lle yn y dref' a gwaith cyfnod Nadolig gyda'r Rotari.

viii) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd** – cais am gymorth ariannol ar gyfer cynllun hybu aelodaeth o'r Urdd am gael sylw Is-bwyllgor Cyllid y Cyngor ar 30.01.2024.

ix) **Y Cynghorydd Peter Jones** – tynnwyd sylw at arwydd newydd - siop 'Vintage Shop' ar y Sgwar. Angen hybu / cefnogi arwyddion Cymraeg / dwyieithog ?

**2 <u>Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd</u>**

**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**
Mynychwyd cyflwyniad i'r Cabinet ar gynlluniau i hybu cymunedau lleol – gan gynnwys 'Lle yn y Dref'.
Adnabwyd 2 x ardal oddifewn Gwynedd gyda diffygion / gwendidau gyda hyn. Mae'r holl gynllun yn ddibynol ar grantiau o'r Cyngor Sir a Llywodraeth Cymru. Mae cyfres o gyfarfodydd aelodau o'r Cyngor am cael ei gynnal parthed y rhaglen o doriadau ar gyfer flwyddyn nesaf (£8 miliwn). Mynychwyd cyfarfod o Fwrdd Trosolwg Ardal Trawsfynydd sydd gyda throsolwg o ddyfodol pwerdy Trawsfynydd, sydd ar y funud yn parhau i gyflogi 300 o bobol gyda'r gwaith datgomisiynnu am 25 o flynyddoedd. Mae'n annhebygol y bydd reactoriaid niwclear bach (SNR's) yn cael eu sefydlu yno i'r dyfodol ar hyn o bryd. Mae yna bryder cyffredinol ynglŷn â diffyg swyddi newydd i'r ardal ar hyn o bryd.

**Cwestiynau / Sylwadau:**
Mae angen gwell dealltwriaeth ynglyn a rheolau / trefn gyda rhaglen glanhau ffyrdd y Sir, yn enwedig rhaglenni glanhau ar gyfer ffyrdd trefol a ffyrdd gwledig – Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn i ymchwilio

**Y Cynghorydd Linda Morgan**
Adroddiad Ysgrifenedig fel a ganlyn

Hi All
My apologies for tonight's meeting.
I am glad you are discussing the Residents Parking Scheme, and hope you support this request from Local Residents.
I was very surprised to learn today from Carol that Gwynedd Council have not consulted with them. And no Site meeting. I

sent the Photos and List of signatures for the request to consider a Residents Parking Scheme in August.
Although Andrew Gregson Senior Traffic Engineer has said it could take 12 – 18 months to implement.
I thought they would of discussed the Scheme after assessing the street to confirm suitability for the Scheme or discuss any problems.
I thought they would of arranged a local consultation to vote for or against the Scheme.
If there are not enough Parking places for those living in the area for the Scheme maybe they could include the 2 parking spaces outside the Cycle Shop.
The area is unique as you have Glyndwr Street back access on to the street which is applying for Resident Parking. So maybe the Rules should change in this area to prioritise the locals who need to park outside their own homes.
Maybe in this area the Holiday Lets could Park in the Marian Carpark leaving enough Parking Spaces for The Local Residents.
Out of the 15 Houses 5 are Holiday lets, often taking two spaces each which means there is no space for the locals.
If you go on holiday to Shrewsbury you quite often have to just drop off your luggage at a Hotel \ Holiday Let and then have a form to go to the Carpark to park with a reduced rate. This seems perfectly acceptable, so the same could happen here and people coming on holiday here could park at the Marian Carpark possibly at a reduced fee.
I do feel we need to support this Scheme and if there are problems we need to see if they can be resolved

Linda Morgan
Dolgellau South

**C71.2023/2024 GOHEBIAETH**

**Derbyniwyd yr ohebiaeth / gwybodaeth ganlynol:**

1. **Cyfarfod mis Ebrill 2024 y Cyngor i'w gynnal ar nos Fawrth, Ebrill 9, 2024 am 7.00 o'r gloch yr hwyr ar gais y Clerc**

   **Penderfynwyd:** Cytuno i hyn

2. **Cronfa Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams - Adroddiad Blynyddol 2022-2023**
   Derbyniwyd yr adroddiad er gwybodaeth.